ERTHYGLAU LLYWODRAETHU PRIFYSGOL DE CYMRU

Gan weithredu'r pwerau a roddwyd iddi gan Adran 125 Deddf Diwygio Addysg 1988, mae Corfforaeth Addysg Uwch Prifysgol De Cymru yn gwneud yr Erthyglau Llywodraethu a ganlyn y bydd Prifysgol De Cymru yn cael ei gweithredu yn unol â hwy:

1. DEHONGLIAD

(1) Yn yr Erthyglau hyn, bydd gan eiriau ac ymadroddion yr ystyron a briodolir iddynt ym mharagraff 1 Offeryn y Llywodraeth a wnaed gan y Cyfrin Gyngor ar 16 Chwefror 1993 ac

mae "deiliaid swyddi uwch" yn golygu y Pennaeth, y Clerc a deiliaid unrhyw swyddi uwch eraill a bennir gan Fwrdd y Llywodraethwyr a bydd "deiliad swydd uwch" yn cael ei ddehongli yn unol â hynny;

mae "y staff" yn cynnwys staff addysgu a staff eraill y Brifysgol;

mae "staff-lywodraethwr" yn golygu aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr a benodwyd ar enwebiad y Bwrdd Academaidd, neu fel aelod o staff cyfetholedig a enwebwyd;

mae "myfyriwr-lywodraethwr" yn golygu aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr a benodwyd fel myfyriwr a enwebwyd neu fyfyriwr cyfetholedig a enwebwyd; ac

mae "undeb myfyrwyr" yn golygu unrhyw gymdeithas o'r myfyrwyr yn gyffredinol a ffurfiwyd i ddatblygu dibenion addysgol y Brifysgol a buddiannau myfyrwyr fel myfyrwyr.

2. GWEITHREDIAD Y BRIFYSGOL

(1) Bydd y Brifysgol yn cael ei gweithredu yn unol â darpariaethau Deddfau Addysg 1944 i 1993, unrhyw Ddeddfau Addysg dilynol, unrhyw reoliadau, gorchmynion neu gyfarwyddiadau perthnasol a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, neu gan y Cyfrin Gyngor, ac mae'n ddarostyngedig, yn unol â darpariaethau'r Offeryn, i'r Erthyglau hyn ac unrhyw is-ddeddfau a wneir o dan yr Erthyglau hyn.

3. CYFRIFOLDEBAU BWRDD Y LLYWODRAETHWYR, Y PENNAETH A'R BWRDD ACADEMAIDD

<u>Bwrdd y Llywodraethwyr</u>

(1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am:

(a) bennu cymeriad a chenhadaeth addysgol y Brifysgol ac am oruchwylio ei gweithgareddau;

(b) y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, diddyledrwydd y sefydliad a'r Gorfforaeth ac am ddiogelu eu hasedau;

(c) cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant;

(ch) penodi, graddio, atal dros dro, diswyddo a phennu tâl ac amodau gwasanaeth deiliaid swyddi uwch ac aseinio ac arfarnu'r Pennaeth a

Chlerc Bwrdd y Llywodraethwyr, os nad yw deiliad y swydd honno yn aelod o staff y Brifysgol;

(d) gosod fframwaith ar gyfer tâl ac amodau'r holl staff eraill.

Y Pennaeth

(2) Yn amodol ar gyfrifoldebau Bwrdd y Llywodraethwyr, y Pennaeth fydd prif weithredwr y Brifysgol a bydd yn gyfrifol am:

(a) gwneud cynigion i Fwrdd y Llywodraethwyr ynghylch cymeriad a chenhadaeth addysgol y Brifysgol, ac am weithredu penderfyniadau Bwrdd y Llywodraethwyr;

(b) trefniadaeth, cyfeiriad a'r gwaith o reoli'r Brifysgol ac arweinyddiaeth y staff;

(c) penodi, aseinio, graddio, arfarnu, atal dros dro, diswyddo a phennu – o fewn y fframwaith a bennir gan Fwrdd y Llywodraethwyr – dâl ac amodau gwasanaeth y staff ar wahân i ddeiliaid swyddi uwch; ac aseinio ac arfarnu deiliaid swyddi uwch ar wahân i'r Pennaeth a Chlerc Bwrdd y Llywodraethwyr, os nad yw deiliad y swydd honno'n aelod o staff y Brifysgol;

(ch) ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Academaidd, pennu gweithgareddau academaidd y Brifysgol, ac am bennu ei gweithgareddau eraill;

(d) paratoi amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant, i'w hystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr, ac am reoli'r gyllideb a'r adnoddau, o fewn yr amcangyfrifon a gymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr; a

(dd) cynnal disgyblaeth y myfyrwyr ac, o fewn y rheolau a'r gweithdrefnau a ddarperir yn yr Erthyglau, am atal dros dro neu wahardd myfyrwyr am resymau disgyblaeth ac am weithredu penderfyniadau i wahardd myfyrwyr am resymau academaidd.

Y Bwrdd Academaidd

(3) Yn amodol ar ddarpariaethau'r Erthyglau hyn, cyfrifoldebau cyffredinol Bwrdd y Llywodraethwyr, a chyfrifoldebau'r Pennaeth, bydd y Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am:

(a) materion cyffredinol sy'n ymwneud ag ymchwil, ysgoloriaethau, addysgu a chyrsiau yn y Brifysgol, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr;

penodi a diswyddo arholwyr mewnol ac allanol;

y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer asesu ac archwilio perfformiad academaidd myfyrwyr;

cynnwys y cwricwlwm;

y safonau academaidd a dilysu ac adolygu cyrsiau;

y gweithdrefnau ar gyfer gwobrwyo cymwysterau a theitlau academaidd anrhydeddus;

a'r gweithdrefnau ar gyfer gwahardd myfyrwyr am resymau academaidd.

Bydd cyfrifoldebau o'r fath yn ddarostyngedig i ofynion y cyrff dilysu ac achredu;

(b) ystyried datblygiad gweithgareddau academaidd y Brifysgol a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cefnogi ac am gynghori'r Pennaeth a Bwrdd y Llywodraethwyr ynghylch hynny; a

(c) cynghori ynghylch materion eraill y mae'n bosibl y bydd Bwrdd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth yn eu hatgyfeirio i'r Bwrdd Academaidd.

(4) Gall y Bwrdd Academaidd sefydlu'r pwyllgorau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau, cyhyd â bod pob pwyllgor yn cael ei gymeradwyo'n gyntaf gan y Pennaeth a Bwrdd y Llywodraethwyr. Bydd y Bwrdd Academaidd yn pennu nifer yr aelodau ar unrhyw bwyllgor o'r fath a'r telerau ar gyfer dal a gadael y swydd.

4. Y BWRDD ACADEMAIDD

(1) Bydd Bwrdd Academaidd gyda dim mwy na 35 o aelodau, sy'n cynnwys y Pennaeth (a fydd yn Gadeirydd) ac aelodau eraill o staff a myfyrwyr a fydd yn cael eu cymeradwyo o bryd i'w gilydd gan Fwrdd y Llywodraethwyr. Gall y Pennaeth enwebu Dirprwy Gadeirydd o blith aelodau'r Bwrdd Academaidd i fod yn gadeirydd yn ei le. Bydd y cyfnod penodi aelodau a'r trefniadau dewis neu ethol yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Bwrdd y Llywodraethwyr. Bydd o leiaf hanner aelodau'r Bwrdd Academaidd yn cynnwys unigolion sydd mewn swyddi ar lefel Pennaeth Adran neu uwch. Bydd yr aelodaeth hefyd yn cynnwys dim llai na phedwar aelod o'r staff addysgu (ar wahân i Benaethiaid Adrannau neu uwch); dim llai nag un aelod o staff nad ydynt yn addysgu; a dim llai nag un myfyriwr.

5. DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU A PHWYLLGORAU

(1) Yn amodol ar y ddarpariaeth a ganlyn yn yr Erthygl hon, gall Bwrdd y Llywodraethwyr sefydlu pwyllgorau at unrhyw ddiben neu swyddogaeth, ar wahân i'r rheini a aseiniwyd mewn man arall yn yr Erthyglau hyn i'r Pennaeth neu'r Bwrdd Academaidd, a gall ddirprwyo pwerau i bwyllgorau o'r fath neu i Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr neu i'r Pennaeth.

(2) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn sefydlu pwyllgor neu bwyllgorau i benderfynu neu gynghori ar faterion o'r fath sy'n ymwneud â pholisi cyflogaeth neu gyllid y bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn eu dirprwyo iddynt. Bydd aelodau'r pwyllgor neu bwyllgorau'n cael eu tynnu o Fwrdd y Llywodraethwyr ar wahân i staff-lywodraethwyr neu fyfyrwyr-lywodraethwyr.

(3) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn sefydlu Pwyllgor Archwilio na fydd ei aelodau'n cynnwys staff-lywodraethwyr neu fyfyrwyr-lywodraethwyr.

(4) Fodd bynnag, ni fydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn dirprwyo'r hyn a ganlyn:

- pennu cymeriad a chenhadaeth addysgol y Brifysgol;

- cymeradwyo amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant;

- sicrhau diddyledrwydd y sefydliad a'r Gorfforaeth a diogelu eu hasedau;

- penodi neu ddiswyddo'r Pennaeth; neu

- amrywio neu ddirymu'r Erthyglau hyn.

6. PENODI CLERC I FWRDD Y LLYWODRAETHWYR

(1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn penodi Clerc i weithredu fel ysgrifennydd i Fwrdd y Llywodraethwyr.

7. GWEITHDREFNAU AR GYFER CYFARFODYDD

Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd

(1) Yn ei gyfarfod cyntaf, bydd y Bwrdd yn penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd, ac o hynny ymlaen yn y cyfarfod cyffredinol olaf ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, bydd yn penodi neu'n cadarnhau'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd sydd i gymryd y swyddi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ddilynol.

(2) Yn absenoldeb y Cadeirydd mewn unrhyw gyfarfod, bydd y Dirprwy Gadeirydd yn cadeirio. Os bydd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn absennol o unrhyw gyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn ethol un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod.

(3) Os bydd y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd yn ymddiswyddo, yn cael ei ddiswyddo, neu'n rhoi'r gorau i fod yn aelod, bydd Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd newydd yn cael eu hethol i wasanaethu am weddill cyfnod yr aelod sydd wedi ymddiswyddo neu sydd wedi rhoi'r gorau i fod yn aelod yn y swydd.

(4) Ni all y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd na'r Cadeirydd Dros Dro fod yn aelodau a gyflogir gan y Gorfforaeth, nac yn fyfyrwyr yn y Brifysgol.

(5) Gellir diswyddo'r Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd drwy benderfyniad gan y Bwrdd cyhyd â bod hysbysiad o'r penderfyniad hwnnw wedi'i gynnwys gyda'r hysbysiad ar gyfer y cyfarfod neu'r agenda ar ei gyfer.

(6) Gall y Dirprwy Gadeirydd neu Gadeirydd Dros Dro, os penodir un, weithredu unrhyw bŵer, dyletswydd neu gyfrifoldeb arall a gyflëir yn yr Erthyglau hyn sydd i gael eu gweithredu gan y Cadeirydd, yn absenoldeb y Cadeirydd neu oherwydd anallu y Cadeirydd oherwydd salwch.

Cworwm

(7) Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr fydd {x} o Lywodraethwyr y bydd {y} ohonynt yn Llywodraethwyr annibynnol. Bydd gwerth {x} ac {y} yn cael ei bennu yn unol â'r tabl a ganlyn:

Cyfanswm maint Bwrdd y Llywodraethwyr fel y'i pennwyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr {x} {y}

12 i 13	5	3
14 i 16	6	4
17 i 18	7	4
19 i 21	8	5
22 i 23	9	5
24 i 25	10	6

Os bydd cworwm mewn cyfarfod, ond mae llai na hanner y rheini sy'n bresennol yn Llywodraethwyr annibynnol, gall mwyafrif o'r Llywodraethwyr annibynnol sy'n bresennol ofyn i benderfyniad gael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf. Ni fydd penderfyniad yn cael ei ohirio mwy nag unwaith o dan y ddarpariaeth hon.

(8) a) Gall cyfarfod heb gworwm barhau i ystyried eitemau ar yr agenda, ohirio'r cyfarfod a pharhau heb gworwm, ond rhaid i'r holl benderfyniadau gael eu gohirio tan y cyfarfod nesaf sydd â chworwm.

b) Gall Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr ddod â chyfarfod heb gworwm i ben ar unrhyw adeg a threfnu cyfarfod arbennig i ymdrin â'r busnes a bennwyd ar gyfer y cyfarfod gwreiddiol.

<u>Cynnal Cyfarfod</u>

(9) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cyfarfod o leiaf dair gwaith ym mhob flwyddyn galendr. Gellir cynnal cyfarfod arbennig ar unrhyw adeg, naill ai ar gyfarwyddyd ysgrifenedig Cadeirydd y Bwrdd, neu ar ôl derbyn cais ysgrifenedig a lofnodwyd gan o leiaf bump o'r Llywodraethwyr (y bydd o leiaf tri ohonynt yn Llywodraethwyr annibynnol) a gyflwynir i'r Clerc.

(10) Bydd pob cyfarfod yn cael ei alw drwy hysbysiad ysgrifenedig a anfonir at bob Llywodraethwr yn nodi lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod a'r busnes i'w drafod. Bydd hysbysiad o'r fath yn cael ei ddosbarthu'n bersonol neu ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf saith diwrnod llawn cyn dyddiad y cyfarfod oni bai bod yr amgylchiadau, ym marn y Cadeirydd, yn ei gwneud yn angenrheidiol i gyfarfod gael ei alw gyda llai o rybudd.

(11) Ni fydd cyfarfodydd na gweithdrefnau Bwrdd y Llywodraethwyr nac unrhyw bwyllgor o'r Bwrdd yn cael eu hannilysu yn sgil unrhyw ddiffyg yn nifer y Llywodraethwyr neu unrhyw ddiffyg nas gwyddir amdano wrth ethol, penodi neu gymhwyso unrhyw Lywodraethwyr neu drwy fethiant ar gam i hysbysu unrhyw Lywodraethwr, neu os na fydd yn derbyn hysbysiad, am y cyfarfod.

(12) Ni fydd aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr wedi'u cyfyngu wrth siarad a phleidleisio gan fandadau a roddir iddynt gan gyrff eraill.

(13) Oni bai bod yr Erthyglau hyn yn darparu fel arall, bydd pob mater i'w benderfynu gan Fwrdd y Llywodraethwyr yn cael ei benderfynu gan fwyafrif yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio mewn cyfarfod. Bydd pleidleisio fel arfer ar ffurf dangos dwylo ond mewn amgylchiadau a bennir ar unrhyw adeg drwy benderfyniad gan y Llywodraethwyr fe'i cynhelir drwy bleidlais gyfrinachol. Ni fydd ymatal rhag pleidleisio yn cyfrif fel pleidlais. Lle bo pleidleisiau cyfartal, bydd Cadeirydd y cyfarfod yn cael ail bleidlais neu

bleidlais fwrw. Bydd pleidleisiau'n cael eu gwneud yn bersonol ac nid drwy ddirprwy.

(14) Ni ellir diddymu nac amrywio penderfyniad gan Fwrdd y Llywodraethwyr mewn cyfarfod dilynol oni bai bod ystyried y diddymiad neu'r amrywiad yn eitem benodol ar fusnes yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

(15) Cedwir cofnodion o drafodion holl gyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr, a'i bwyllgorau, gan y Clerc a byddant yn cael eu llofnodi yn yr un cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr, neu'r pwyllgor, neu yn y cyfarfod cyffredinol nesaf, fel y bo, gan yr unigolyn sy'n cadeirio ar y pryd, ac yna bydd yn dystiolaeth derfynol o'r materion a nodwyd.

<u>Penodi Llywodraethwyr</u>

(16) Bydd yr hysbysiad a roddir ar gyfer unrhyw gyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr lle y bydd penodiad unrhyw Lywodraethwr yn cael ei ystyried, y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r fath a'r dull pleidleisio fel y maent wedi'u nodi yn Erthyglau 7(7), 7(10), 7(13), cyhyd â bod y penodiad, mewn perthynas â phenodi Llywodraethwr annibynnol, yn cael ei wneud drwy bleidlais sy'n cynrychioli mwyafrif llwyr o'r holl aelodau annibynnol sy'n bresennol (p'un a ydynt yn cymryd rhan yn y bleidlais ai peidio).

(17) Pan mai'r llywodraethwyr annibynnol yw'r awdurdod penodi ar gyfer Llywodraethwyr annibynnol o dan ddarpariaethau paragraff 7 o Atodlen 7 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988, byddant yn ffurfio pwyllgor at y diben o wneud penodiadau o'r fath, a bydd y gweithdrefnau a ganlyn yn berthnasol:

(a) bydd darpariaethau Erthyglau 7(10), 7(11), 7(12) yn berthnasol;

(b) y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgor fydd pedwar Llywodraethwr neu, os yw nifer y Llywodraethwyr annibynnol yn is ar y pryd, yr holl Lywodraethwyr annibynnol.

(c) bydd yr holl benodiadau'n cael eu gwneud drwy bleidlais sy'n cynrychioli mwyafrif llwyr o'r holl Lywodraethwyr annibynnol sy'n bresennol (p'un a ydynt yn cymryd rhan yn y bleidlais ai peidio). Gall aelodau'r pwyllgor benodi aelodau annibynnol eraill fel dirprwyon i bleidleisio drostynt.

Buddiannau Ariannol, Teuluol neu Bersonol Eraill

(18) Os bydd gan unrhyw aelod fuddiant ariannol, teuluol neu bersonol arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn unrhyw gontract, contract arfaethedig neu fater arall ac mae'n bresennol mewn cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr neu'r pwyllgor lle y bydd y contract neu fater arall yn cael ei ystyried, bydd yr aelod yn datgelu'r ffaith yn y cyfarfod, ac mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl iddo ddechrau, ac, oni bai ei fod wedi'i gytuno fel arall drwy benderfyniad yn y cyfarfod, bydd yn gadael y cyfarfod cyn i'r eitem honno gael ei thrafod, ac ni fydd yn cymryd rhan mewn unrhyw ystyriaeth neu drafodaeth am y contract neu'r mater arall nac yn pleidleisio ar unrhyw gwestiwn yn ei gylch. Ni fydd unrhyw Lywodraethwr yn cael ei drin fel rhywun sydd â buddiant ariannol mewn unrhyw fater am y rheswm ei fod yn aelod o staff neu'n fyfyriwr yn y Sefydliad yn unig.

(19) Bydd staff-lywodraethwyr neu fyfyrwyr-lywodraethwyr neu aelodau o bwyllgorau yn gadael cyfarfodydd, os yw'n briodol, lle y bo unrhyw fater sy'n ymwneud ag aelod o staff neu fyfyriwr a enwir, neu ddarpar aelod o staff neu fyfyriwr, yn cael ei ystyried. Bydd y Pennaeth yn gadael unrhyw gyfarfod neu ran ohono lle y bydd ei sefyllfa ef neu hi yn cael ei drafod.

Mynediad at Bapurau

(20) Ar wahân i'r achosion lle y bydd deunydd sy'n ymwneud ag aelodau neu ddarpar aelodau o staff a enwir neu'r corff o fyfyrwyr neu faterion y mae Bwrdd y Llywodraethwyr neu unrhyw bwyllgor (fel y bo) wedi'u bodloni y dylid eu trafod ar sail gyfrinachol, bydd yr agenda ar gyfer pob cyfarfod o Fwrdd y Llywodraethwyr, y cofnodion drafft a gymeradwyir gan y Cadeirydd, y cofnodion wedi'u cadarnhau o gyfarfodydd o'r fath ac unrhyw adroddiad, dogfen neu bapur arall a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod yn cael eu darparu, ym mhob achos a chyn gynted â phosibl, yn y Brifysgol i unrhyw aelod o staff neu fyfyrwyr yn y Brifysgol.

8. PENODI A DYRCHAFU STAFF

(1) Bydd pob aelod o staff yn gwasanaethu o dan gontract cyflogaeth gyda'r Gorfforaeth.

(2) Pan fydd swydd y Pennaeth yn dod yn wag neu pan ddisgwylir iddi ddod yn wag, bydd y swydd yn cael ei hysbysebu'n genedlaethol.

9. YMDDYGIAD Y STAFF

(1) Ar ôl ymgynghori â'r staff, bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gwneud rheoliadau sy'n ymwneud ag ymddygiad y staff.

Rhyddid Academaidd

(2) Wrth wneud rheolau o dan Erthygl 9(1), bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn ystyried yr angen i sicrhau bod gan y staff academaidd y rhyddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi'r cyngor a dderbynnir, a chyflwyno syniadau newydd a safbwyntiau dadleuol neu amhoblogaidd, heb roi eu hunain mewn perygl neu golli eu swyddi neu unrhyw freintiau sydd ganddynt o bosibl yn y Brifysgol.

10. ATAL STAFF DROS DRO NEU EU DISWYDDO

Atal dros dro

(1) Gall Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd, atal deiliad swydd uwch dros dro o'i ddyletswyddau, gyda thâl, am gamymddwyn neu reswm da neu frys arall. Bydd y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd yn hysbysu Bwrdd y Llywodraethwyr ynghylch ataliad o'r fath yn ysgrifenedig o fewn dau ddiwrnod gwaith neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny.

(2) Gall y Pennaeth atal o'i ddyletswyddau, gyda thâl, unrhyw aelod o staff ar wahân i ddeiliad swydd uwch am gamymddwyn neu unrhyw reswm da a brys arall.

(3) Bydd gan unrhyw un sy'n cael ei atal dros dro o'i ddyletswyddau o dan Erthyglau 10(1) neu 10(2) yr hawl i hysbysiad ysgrifenedig o'r ataliad gan y Pennaeth, neu yn achos deiliaid swyddi uwch, Gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, sy'n nodi'r sail ar gyfer gwneud y penderfyniad i atal.

(4) Bydd y gweithdrefnau ar gyfer atal staff dros dro o dan Erthyglau 10(1) neu 10(2) yn cael eu nodi mewn rheolau a wneir gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar ôl ymgynghori â'r staff. Bydd y rheolau yn cynnwys y ddarpariaeth a ganlyn:

(a) gall unrhyw unigolyn sydd wedi'i atal dros dro am dair wythnos neu fwy apelio'n ysgrifenedig at Fwrdd y Llywodraethwyr yn erbyn yr ataliad, ond ni fydd gan yr unigolyn hawl i apelio os yw'n destun atgyfeiriad i Bwyllgor Arbennig o dan Erthygl 10(5) neu hysbysiad gan y Pennaeth o dan Erthygl 10(12);

(b) bydd unrhyw apêl a wneir o dan 10(4)(a) yn cael ei ystyried cyn gynted ag y bo'n ymarferol; a

(c) bydd ataliad y mae apêl wedi'i wneud yn ei erbyn yn parhau i gael ei weithredu hyd nes y gwneir penderfyniad am yr apêl.

Diswyddo

(i) Deiliaid swyddi uwch gan gynnwys y Pennaeth a'r Clerc

(5) Os bydd Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, neu yn ei absenoldeb y Dirprwy Gadeirydd, neu fwyafrif o aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr, yn ystyried ei fod yn briodol i Fwrdd y Llywodraethwyr ddiswyddo deiliad swydd uwch, bydd y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd neu Fwrdd y Llywodraethwyr, fel sy'n briodol, yn atgyfeirio'r mater i Bwyllgor Arbennig o Fwrdd y Llywodraethwyr, a fydd yn cwrdd cyn gynted â phosibl i archwilio'r ffeithiau, ac ymchwilio fel arall y rheswm dros y diswyddiad a chyflwyno adroddiad i Fwrdd y Llywodraethwyr.

(6) Bydd gan yr unigolyn y bydd ei ddiswyddiad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Arbennig yr hawl i gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor, gan gynnwys sylwadau llafar, ac, at y dibenion hynny, gall ffrind ddod yn gwmni iddo neu ei gynrychioli.

(7) Bydd y Pwyllgor Arbennig yn paratoi adroddiad ysgrifenedig i'w ystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr, a bydd copi ohono'n cael ei anfon at yr unigolyn y mae'n cyfeirio ato. Bydd yr adroddiad yn nodi'r ffeithiau sy'n ymwneud â'r achos ac unrhyw ystyriaethau y mae'r pwyllgor yn credu y dylid eu hystyried yn nhrafodaethau Bwrdd y Llywodraethwyr ar y mater. Ni ddylai'r adroddiad gynnwys argymhellion ynghylch y penderfyniadau i'w gwneud gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

(8) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Arbennig ac yn cymryd y camau y mae'n eu hystyried sy'n briodol, a allai gynnwys diswyddo'r unigolyn dan sylw. Bydd gan yr unigolyn dan sylw yr hawl i wneud sylwadau i Fwrdd y Llywodraethwyr, gan gynnwys sylwadau llafar, a gall ffrind ddod yn gwmni iddo neu ei gynrychioli at y diben hwnnw.

(9) Bydd y Pwyllgor Arbennig yn cynnwys tri aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr. Ni fydd Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, y Dirprwy Gadeirydd, y Pennaeth na staff-lywodraethwyr a myfyrwyr-lywodraethwyr yn gymwys i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Arbennig.

(10) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gwneud rheolau sy'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal Pwyllgor Arbennig ac agweddau eraill ar y weithdrefn a nodir yn Erthyglau 10(5) i 10(9).

(ii) <u>Aelodau Eraill o Staff</u>

(11) Gall y Pennaeth ddiswyddo unrhyw aelod o staff ar wahân i ddeiliad swydd uwch ac os yw'r amgylchiadau'n golygu bod ganddo hawl i wneud hynny oherwydd ymddygiad yr aelod o staff hwnnw, gall y diswyddiad hwnnw ddigwydd yn syth heb unrhyw angen am rybudd o flaen llaw.

(12) Lle y bo'r Pennaeth yn cynnig diswyddo aelod o staff o'r fath ac nid yw'r amgylchiadau a ddisgrifir yn Erthygl 10(11) yn goruchafu, bydd yn hysbysu'r aelod o staff dan sylw ynghylch y cynnig hwnnw. Bydd yr aelod hwnnw o staff yn cael cyfle i wneud sylwadau i'r Pennaeth (gan gynnwys sylwadau llafar, a gall ffrind ddod yn gwmni iddo neu ei gynrychioli at y diben hwnnw) cyn y bydd y Pennaeth yn gwneud unrhyw benderfyniad i'w ddiswyddo.

(13) Lle y bo aelod o staff wedi'i ddiswyddo yn unol ag Erthygl 10(11) neu lle y bo penderfyniad wedi'i wneud i ddiswyddo yn unol ag Erthygl 10(12), gall yr aelod o staff wneud apêl yn erbyn y diswyddiad neu'r penderfyniad, fel y bo, i Fwrdd y Llywodraethwyr. Yn achos apêl yn erbyn penderfyniad i ddiswyddo, ni fydd y diswyddiad yn cael ei weithredu nes bod yr apêl wedi'i benderfynu.

(14) Bydd y gweithdrefnau ar gyfer diswyddo staff gan y Pennaeth ac ar gyfer ystyried apeliadau yn erbyn diswyddiadau yn cael eu nodi yn y rheolau a wneir gan Fwrdd y Llywodraethwyr ar ôl ymgynghori â'r staff. Dylai'r rheolau gynnwys hawliau cynrychiolaeth.

11. GWEITHDREFNAU CWYNO

(1) Ar ôl ymgynghori â'r staff, bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn gwneud rheolau sy'n nodi'r gweithdrefnau y gall y staff sy'n dymuno ceisio iawn am unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â'u cyflogaeth eu dilyn.

12. MYFYRWYR

(1) Bydd undeb myfyrwyr yn cynnal a rheoli ei faterion a'i gyllid ei hunan yn unol â chyfansoddiad a gymeradwyir gan Fwrdd y Llywodraethwyr a bydd yn cyflwyno cyfrifon wedi'u harchwilio bob blwyddyn i Fwrdd y Llywodraethwyr. Ni fydd unrhyw ddiwygiad neu ddirymiad o'r cyfansoddiad hwnnw, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, yn ddilys oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr a nes y bydd hynny'n digwydd.

(2) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr, ar ôl ymgynghori â'r Bwrdd Academaidd a chynrychiolwyr y myfyrwyr, yn gwneud rheolau ynghylch ymddygiad y myfyrwyr, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer atal dros dro a gwahardd.

(3) Gwneir y rheolau o dan Erthyglau 12(2) a byddant yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â:

- pwerau'r Pennaeth i wahardd neu atal myfyriwr dros dro am resymau disgyblaeth;
- sefydlu pwyllgor disgyblu myfyrwyr sy'n cynnwys nifer gyfartal o Lywodraethwyr, staff a myfyrwyr, i gynghori'r Pennaeth ynghylch y camau i'w cymryd mewn achosion unigol;
- gweithdrefnau i fyfyrwyr wneud sylwadau i Fwrdd y Llywodraethwyr yn erbyn gwaharddiad neu ataliad dros dro.

(4) Wrth weithredu ei gyfrifoldebau o dan Erthyglau 3(3)(a), bydd y Bwrdd Academaidd, ar ôl ymgynghori â Bwrdd y Llywodraethwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr, yn pennu'r gweithdrefnau ar gyfer gwahardd myfyriwr oherwydd gwaith o safon anfoddhaol a rhesymau academaidd eraill.

(5) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod gan y myfyrwyr y cyfle llawnaf i godi materion o bryder priodol ag ef ar bob lefel yn y Brifysgol.

13. MATERION ARIANNOL

<u>Ffioedd</u>

(1) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn pennu'r ffioedd dysgu a'r ffioedd eraill sy'n daladwy i'r Gorfforaeth (yn amodol ar unrhyw delerau ac amodau sy'n gysylltiedig â grantiau, benthyciadau a thaliadau eraill a delir neu a wneir gan Gyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru).

<u>Amcangyfrifon o Gyfrifon ac Archwilio</u>

(2) Bydd Bwrdd y Llywodraethwyr yn cadw cyfrifon a chofnodion, ac yn penodi archwilwyr yn unol â darpariaethau'r Ddeddf.

(3) Bydd amcangyfrifon blynyddol o incwm a gwariant yn cael eu paratoi gan y Pennaeth i'w hystyried a'u cymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr.

14. RHEOLAU AC IS-DDEDDFAU

(1) Bydd gan Fwrdd y Llywodraethwyr y pŵer i wneud rheolau ac is-ddeddfau ynghylch materion mewn perthynas â llywodraethiant a gweithrediad y Brifysgol fel y gwêl orau. Bydd rheolau ac is-ddeddfau o'r fath yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Erthyglau hyn.

15. COPÏAU O ERTHYGLAU, RHEOLAU AC IS-DDEDDFAU

(1) Bydd copi o'r Erthyglau, ac unrhyw reolau neu is-ddeddfau, yn cael ei roi i bob llywodraethwr a bydd ar gael i'w archwilio ar gais pob aelod o staff a phob myfyriwr.

16. DIWYGIO ERTHYGLAU

(1) Gellir addasu neu gyfnewid yr Erthyglau hyn drwy benderfyniad gan Fwrdd y Llywodraethwyr naill ai gyda chymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor neu fel sy'n ofynnol ganddo, ar ôl ymgynghori â Bwrdd y Llywodraethwyr, yn unol ag Adran 125 y Ddeddf.

17. DYDDIAD YR ERTHYGLAU

(1) Bydd yr Erthyglau hyn yn dod yn weithredol ar 11 Ebrill 2013.